Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Gwneud penderfyniadau da: banc addewidion

Ionawr 2016

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau fferylliaeth a ffydd y cyhoedd ynddi.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- Cymeradwyo cymwysterau fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ac achredu darparwyr addysg a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, moeseg, hyfedredd, addysg a hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- gosod a hybu safonau ymarfer fferylliaeth ddiogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig
- gosod anghenion addasrwydd ymarfer a monitro addasrwydd ymarfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, a delio mewn ffordd deg a chymesur gyda chwynion a phryderon

Rydym yn ymrwymedig at warchod, hybu a gwella iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae delio gyda'r nifer fechan o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol nad ydynt yn cyrraedd y safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rhan bwysig o'n gwaith.

Cynnwys

Adran	Teitl	Tudalen
1	Cyflwyniad - Am beth y mae'r ddogfen hon - Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon - Cydraddoldeb ac amrywiaeth	6
2	Ynghylch addewidion - Beth yw addewidion? - Pryd i ystyried addewidion - Ysgrifennu addewidion - Monitro a methu cydymffurfio - Dod ag addewidion i ben neu newid addewidion - Cyfrinachedd	7
3	Y banc addewidion	10

1 Cyflwyniad

Am beth y mae'r ddogfen hon

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro diben addewidion ac mae'n rhestru hefyd yr addewidion y gall pwyllgor ymchwilio (PY) gytuno arnynt gydag aelod cofrestredig.

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon

1.2 Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- aelodau PY sy'n gyfrifol am asesu achosion ac ysgrifennu addewidion, ac
- aelodau cofrestredig y mae pryder wedi ei fynegi yn eu cylch neu sydd eisoes wedi cytuno ar addewidion

Byddan nhw o gymorth i bobl sydd ynghlwm wrth y gwaith o ymchwilio i achosion, a'r gwaith o fonitro aelodau cofrestredig sydd wedi cytuno ar addewidion. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithwyr achos, uwch weithwyr achos, para gyfreithwyr a chyfreithwyr yn y tîm rheoleiddio gweithwyr proffesiynol (addasrwydd ymarfer)
- rheolwyr rheoleiddio gweithwyr proffesiynol
- pennaeth rheoleiddio gweithwyr proffesiynol (addasrwydd ymarfer)
- y rheolwr monitro

1.3 Byddant hefyd o ddefnydd i unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y broses addasrwydd ymarfer.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

1.4 Mae'r CFfC yn ymrwymedig at hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei waith. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein staff, y proffesiwn ac yn ein cyngor. Ein nod yw sicrhau bod ein prosesau yn deg, yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn rhydd rhag camwahaniaethu, a bod ein rhydd-ddeiliaid yn derbyn gwasanaeth o safon. Rydym yn glynu wrth yr egwyddorion a ddisgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym wedi datblygu **cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

1.5 Disgwylir i staff y CFfC weithredu yn unol â'n gwerthoedd a gweithio tuag at yr amcanion hyn drwy gydol y broses addasrwydd ymarfer. Bydd y CFfC yn gweithredu yn unol â'r hawliau a amlinellir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'u hymgorfforir mewn cyfraith ddomestig yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

2 Ynghylch addewidion

2.1 Rydym wedi creu'r banc hwn i fod o gymorth i'r PY wrth ysgrifennu addewidion sy'n ymarferol, yn hawdd eu gorfodi ac yn eglur. Dylid darllen y ddogfen hon law yn llaw â'r canllawiau ar benderfyniadau doeth: ***Gwneud penderfyniadau da: canllawiau ar gyfer gwrandawiadau a sancsiynau addasrwydd ymarfer***.[1]

Beth yw addewidion?

2.2 Cytundeb rhwng y CFfC a'r aelod cofrestredig ynghylch gwaith yr aelod yn y dyfodol yw addewidion. Nod yr addewidion yw caniatáu i'r aelod barhau i weithio, ond gyda chyfyngiadau. Gallant gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer aelod neu ymrwymiad i ymarfer dan oruchwyliaeth neu i ymgymryd â rhaglen ailhyfforddiant.

2.3 Gellir cytuno ar addewidion rhwng aelod a'r CFfC pan fo gwybodaeth ar gael sy'n dangos bod nam ar addasrwydd ymarfer yr aelod a'r aelod yn cydnabod y nam.[2] Mae gan aelodau sydd wedi cytuno ar addewidion hawl o hyd i weithio fel gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd angen iddynt gydymffurfio â thermau'r amodau fodd bynnag.

Pryd i ystyried addewidion

2.4 Dylai'r PY sicrhau mai dim ond pan fo'n bosibl drafftio addewidion ymarferol, y gellir eu monitro'n effeithiol, y dylai ystyried addewidion. Dim ond pan fydd y PY yn sicr y bydd yr aelod yn cydymffurfio â nhw y dylid argymell addewidion.

2.5 Gallai addewidion fod yn addas os yw'r PY yn fodlon y bydd cleifion a'r cyhoedd yn cael eu diogelu, a'u bod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch yr aelod cofrestredig. Gall addewidion fod yn briodol pan fo tystiolaeth ar gael bod yr aelod cofrestredig yn fodlon ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant pellach. Dim ond pan fo meysydd penodol yng ngwaith yr aelod sydd yn hawdd eu hadnabod ac sydd angen eu hadolygu, eu hasesu neu ailhyfforddi ar eu cyfer y dylid ystyried addewidion.

2.6 Mae'n bosib y gallent hefyd fod yn briodol yn sgil cyngor gan asesydd meddygol a apwyntiwyd gan y CFfC i asesu iechyd yr aelod. Yn yr achosion hyn, dim ond pan fo tystiolaeth ar gael bod gan yr aelod fewnwelediad i'w broblemau iechyd ac nad oes problemau ynghylch agwedd yr aelod y byddan nhw'n briodol.

2.7 Os na fydd aelod yn cyfaddef bod nam ar ei waith, ni fydd addewidion yn briodol. Ni ddylid eu hystyried chwaith os yw'r aelod wedi torri addewidion a gynigwyd gan PY yn y gorffennol neu wedi torri amodau a osodwyd gan y Pwyllgor Addasrwydd Ymarfer (PAY).

1 **www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/good_decision_making-_investigating_committee_meetings_and_outcomes_guidance_january_2016_welsh.pdf**

2 Rheol 10(1) Rheolau AY a Diarddel 2010

Ysgrifennu addewidion

2.8 Dylai addewidion fel arfer ddilyn y fformat a ddangosir yn y banc addewidion. Fodd bynnag, dylid teilwra addewidion wastad at amgylchiadau penodol pob achos, a dylent ddelio gyda'r risgiau a allai godi mewn ffordd gymesur. Gallai hyn olygu addasu addewid o'r banc neu ysgrifennu addewid newydd sbon.

2.9 Dylid egluro yn glir nod unrhyw addewid a gytunir gydag aelod. O wneud hyn bydd y PY wedyn yn gallu penderfynu a gyflawnwyd y nod pan fydd yr achos yn cael ei adolygu.

2.10 Dylai'r addewidion wastad ddweud yn glir, pan yn berthnasol, mai'r aelod cofrestredig fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw gost sydd ynghlwm wrth gydymffurfio â nhw. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r PY yn gofyn i'r aelod gael profion alcohol a chyffuriau.

2.11 Fel arfer, ni ddylid argymell addewidion am gyfnod hirach na dwy flynedd. Pe bai angen i addewidion fod yn eu lle'n hirach na dwy flynedd er mwyn diogelu'r cyhoedd, mae'n bosibl y dylai'r PAY ystyried yr achos.

2.12 Dylai'r PY gofio y gallai'r aelod cofrestredig newid ei fan neu faes gwaith. Ni ddylai'r addewidion felly gael eu cyfyngu i'r man neu faes gwaith presennol yn unig.

Monitro a methu cydymffurfio

2.13 Mae'r tîm monitro a phryderon yn monitro cydymffurfiaeth gyda'r addewidion. Byddant yn adolygu'r adroddiadau goruchwylio ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a anfonir gan yr aelod cofrestredig yn ystod cyfnod yr addewidion. Bydd y tîm monitro a phryderon yn asesu'r wybodaeth er mwyn penderfynu:

- a yw'r aelod yn cydymffurfio gyda'r addewidion
- a oes unrhyw bryderon newydd y mae angen gweithredu arnynt, ac
- a fu dirywiad mewn iechyd neu berfformiad

2.14 Bydd y tîm monitro a phryderon yn cyfeirio'r achos yn ôl i'r PY gydag argymhelliad i ddod â'r addewidion i ben os:

- bydd aelod wedi cydymffurfio â'r addewidion, ac
- os na fu pryderon newydd yn ystod cyfnod yr addewidion ac na fu torri ar unrhyw addewidion ac na fu dirywiad mewn iechyd neu berfformiad

2.15 Os bydd y tîm monitro a phryderon yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu nad yw addewid bellach yn briodol byddan nhw'n cyfeirio'r achos yn ôl at y PY, gydag argymhelliad i addasu'r addewid neu ddod ag ef i ben. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pe bai iechyd neu berfformiad aelod wedi gwella'n sylweddol iawn a bod y risg i'r cyhoedd felly yn llai.

2.16 Os bydd y tîm monitro a phryderon yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu bod aelod yn cydymffurfio gydag addewid ond nad yw'r addewid bellach yn briodol - gan fod iechyd neu berfformiad yr aelod wedi dirywio a bod risg i'r cyhoedd - byddan nhw'n cyfeirio'r achos yn ôl at y PY. Byddant yn argymell newid yr addewid neu gyfeirio'r achos at y PAY.

2.17 Os bydd y tîm monitro a phryderon yn derbyn gwybodaeth bod aelod yn torri addewidion, byddan nhw'n ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth ar y CFfC i allu cadarnhau bod addewidion wedi eu torri. Byddan nhw'n penderfynu a ddylid:

- ystyried gorchymyn interim, neu
- gyfeirio'r achos yn ôl i'r PY, neu
- ysgrifennu at yr aelod a'i atgoffa o bwysigrwydd cydymffurfio gyda'r addewidion ac y gellid cyfeirio unrhyw addewidion a dorrir eto at y PY (a allai arwain yn ei dro at gyfeirio at y PAY)

2.18 Os bydd achos yn cael ei gyfeirio yn ôl at PY a'i fod yn cynnwys gwybodaeth na chydymffurfiwyd â'r addewidion, gall y PY:[3]

- gyfeirio'r honiad gwreiddiol i PAY, ac ymdrin â'r methiant i gydymffurfio â'r addewidion fel honiad ar wahân o gamymddwyn a chyfeirio'r honiad hwnnw at y PAY, neu
- benderfynu peidio â chyfeirio'r honiad gwreiddiol i'r PAY, ond ymdrin â'r methiant i gydymffurfio gydag addewidion fel honiad ar wahân o gamymddwyn a chyfeirio'r honiad hwnnw i'r PAY

2.19 Byddai tystiolaeth a allai arwain at y PY yn cyfeirio achos at y PAY yn cynnwys tystiolaeth:

- o ailadrodd y methiant i gydymffurfio
- bod diogelwch cleifion yn wynebu risg sylweddol yn sgil torri'r addewid
- bod yr aelod cofrestredig wedi anwybyddu'r cyfarwyddiadau oedd yn rhan o'r addewidion a benderfynwyd arnynt gyda'r CFfC
- bod yr aelod wedi torri'r addewidion yn fwriadol

Dod ag addewidion i ben neu newid addewidion

2.20 Bydd y wybodaeth a ddarperir gan y tîm monitro a phryderon yn dangos:

- bod yr aelod cofrestredig yn cydymffurfio a bod ei iechyd neu berfformiad wedi gwella, neu
- ei fod wedi torri addewidion, neu
- fod pryderon ynghylch addasrwydd yr aelod i ymarfer

2.21 Os cyfeirir achos yn ôl i PY a'i fod yn cynnwys gwybodaeth nad yw'r addewidion bellach yn briodol, gall y PY:[4]

- gyda chytundeb yr aelod, amrywio'r addewidion, neu
- benderfynu nad yw'r addewidion hynny bellach yn gymwys

2.22 Byddai tystiolaeth a allai arwain y PY i benderfynu y dylid amrywio addewidion neu ddod â nhw i ben yn cynnwys:

- tystiolaeth bod iechyd neu berfformiad aelod cofrestredig wedi gwella
- nad oes pryderon sylweddol wedi dod i'r fei
- bod canlyniadau profion yn dangos na fu camddefnydd ar sylweddau
- bod cyflyrau parhaus neu ysbeidiol yn cael eu rheoli'n briodol gan aelod a'i fod yn ymdopi â nhw
- nad oes risg barhaus i ddiogelwch y cyhoedd
- bod cynllun manwl ac addas yn ei le i ddelio gyda dirywiadau posibl a systemau cefnogaeth yn eu lle

Cyfrinachedd

2.23 Rhoddir hysbysiad ar y gofrestr gyhoeddus bod aelod wedi cytuno ar addewidion. Ni fydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys manylion penodol yr addewidion, ond nodir am ba hyd y byddant mewn grym. Mae manylion am yr amgylchiadau fydd yn arwain at ddatgelu gwybodaeth am addewidion ym mholisi cyhoeddi a datgelu'r CFfC.

3 Rheol 10(2) Rheolau AY a Diarddel 2010

4 Rheol 10(3) Rheolau AY a Diarddel 2010

3 Banc addewidion

A	Addewidion cyffredinol ar gyfer pob achos Dylai'r rhain wastad fod yn rhan o addewidion y cytunir arnynt	Nodiadau
1	I: • hysbysu'r CFfC cyn i chi ymgymryd â swydd y mae'n rhaid i chi fod yn gofrestredig gyda'r CFfC er mwyn ei chyflawni • rhoi manylion y swydd a'r oriau rydych yn gweithio bob wythnos, gan gynnwys gwaith locwm neu gyflenwi, i'r CFfC • rhoi manylion cyswllt eich cyflogwr, fferyllydd goruchwyliol a/neu berchennog eich fferyllfa i'r CFfC.	
2	I hysbysu'r bobl ganlynol, mewn ysgrifen, am y cyfyngiadau a roddwyd ar eich gwaith, mewn perthynas â gwaith â thâl neu waith di-dâl y mae angen bod ar gofrestr y CFfC i'w wneud. Dylid eu hysbysu o fewn pythefnos o'r dyddiad y daw'r addewidion i rym: [dileer neu ychwaneger fel y bo'n addas] • pob cyflogwr neu gontractwr • asiantau yn gweithredu ar ran cyflogwyr neu asiantaethau locwm • fferyllwyr goruchwyliol • fferyllwyr â chyfrifoldeb • rheolwyr llinell • goruchwylwyr gweithle • y swyddog atebol dros gyffuriau a reolir Rhaid i chi roi copi o'r hysbysiad uchod i'r CFfC. Os ydych yn ymgeisio am swydd, rhaid i chi roi'r hysbysiad hwn i ddarpar gyflogwr wrth wneud cais.	Dylai'r Pwyllgor nodi'r bobl a/neu sefydliadau penodol y bydd angen cysylltu â nhw. Nid yw'r rhestr yn un gyflawn a bydd yn dibynnu ar yr achos. Gallai hefyd gynnwys: • tîm Ardal GIG Lloegr (preswylwyr Lloegr) • byrddau Iechyd (preswylwyr Yr Alban) • byrddau Iechyd Lleol Cymru (preswylwyr Cymru)
3	I hysbysu'r CFfC os byddwch yn ymgeisio am waith y tu allan i Brydain.	

B	Addewidion safonol ar gyfer pob achos iechyd neu gamddefnyddio sylweddau Ystyriwch a oes angen goruchwylio, mentora neu gyfyngu ar ymarfer yn ogystal â'r amodau hyn	Nodiadau
4	I: • eich rhoi eich hun, ac aros, dan oruchwyliaeth meddyg teulu/gweithiwr meddygol yn arbenigo mewn [maes] • mynychu apwyntiadau a drefnwyd • dilyn eu cyngor, a • dilyn y driniaeth a argymhellwyd ganddynt	Dylai'r PY nodi ai Meddyg Teulu ynteu arbenigwr y dylai hyn fod.
5	I roi enw a manylion cyswllt eich meddyg teulu ac unrhyw weithiwr meddygol arall sy'n gyfrifol am eich gofal i'r CFfC. Rhaid i chi hefyd roi cydsyniad i'r CFfC ysgrifennu atynt ynghylch eich iechyd.	
6	I drefnu bod y CFfC yn derbyn adroddiadau meddygol gan eich Meddyg Teulu/ ymgynghorydd bob [nifer y misoedd] mis neu pan fyddwn yn gofyn amdanynt. Rhaid i chi dalu'r costau sydd ynghlwm wrth fynychu apwyntiadau a darparu adroddiadau meddygol. Byddwn yn ymddwyn yn rhesymol o ran pa mor aml y byddwn yn gofyn am adroddiadau meddygol.	Dylai'r PY nodi gan bwy y dylai'r adroddiad ddod.
7	I gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan eich ymarferydd meddygol cyn derbyn unrhyw swydd y mae bod yn aelod o gofrestr y CFfC yn orfodol ar ei chyfer. Rhaid i chi anfon copi o'r gymeradwyaeth ysgrifenedig at y CFfC.	
8	I adolygu eich ymrwymiadau proffesiynol yn gyson a chyfyngu'ch gwaith fferyllol yn unol â chyngor eich goruchwyliwr meddygol.	
9	I roi'r gorau i'ch gwaith yn syth os mai dyna gyngor eich ymarferydd meddygol. Rhaid i chi hysbysu'r CFfC am hyn o fewn 7 diwrnod o dderbyn y cyngor.	

	Iechyd corfforol a meddyliol	Nodiadau
10	I beidio ag ymgymryd â [dyletswyddau ar-alw/gwaith penwythnos/gwaith y tu allan i oriau arferol/ gwaith oriau estynedig/ dyletswyddau locwm/dyletswyddau cyflenwi].	Os yw'r PY yn nodi 'oriau estynedig a/neu y tu allan i oriau arferol', dylai nodi'r nifer o oriau dyddiol a ganiateir a'r amser dechrau a gorffen derbyniol. Dylai hefyd ystyried sut byddai hyn yn effeithio ar allu'r aelod cofrestredig i ddod o hyd i waith.
11	I gael asesiadau iechyd galwedigaethol gydag ymarferydd meddygol cofrestredig a chydymffurfio gydag unrhyw argymhelliad a wneir ganddo. Rhaid i chi drefnu ei fod yn anfon adroddiadau at y CFfC bob [nifer y misoedd] mis. Chi sy'n gyfrifol am dalu am yr asesiadau hyn.	Archwiliad meddygol a wneir gan feddyg iechyd galwedigaethol yw asesiad iechyd galwedigaethol. Ei nod fel arfer yw ateb cwestiynau a godir gan gyflogwr. Yn bennaf, diben yr asesiad yw: • rhoi cyngor ynghylch iechyd y cyflogai i'r cyflogwr, ac • argymell pa addasiadau y gellid eu hystyried er mwyn sicrhau bod amgylchedd gwaith diogel ac iach ar gael i'r cyflogai hwnnw Gall hefyd fod yn asesiad ar ffitrwydd rhywun i weithio.
	Camddefnyddio Alcohol neu Sylweddau	**Nodiadau**
12	I drefnu a chael [math o brawf] ar gyfer [defnydd diweddar a hir dymor alcohol a/neu [gyffur]]bob [nifer o fisoedd] mis tan i'r addewidion ddod i ben. Rhaid anfon canlyniadau'r profion hyn yn brydlon at y CFfC. Chi sy'n gyfrifol am dalu am y profion hyn.	Ystyriwch amgylchiadau ariannol aelod cofrestredig wrth osod yr amod hwn os gwelwch yn dda. Os yn profi gwallt, nodwch y cyfnod y dylai'r prawf fod yn berthnasol iddo.
13	I gadw at drefniadau a wneir gan, neu ar ran, y CFfC ar gyfer profi'n ddirybudd [sylwedd - os profi gwallt, nodwch y cyfnod y bydd y prawf yn weithredol ar ei gyfer] am [ddefnydd diweddar a hir dymor alcohol a/neu [gyffur]] bob [nifer y misoedd] mis. Chi sy'n gyfrifol am dalu am y profion hyn.	Bydd hyn yn galluogi'r CFfC i drefnu profion dirybudd os daw'n amlwg yn ystod y cyfnod monitro y byddai hynny'n fuddiol. Petai'r PY yn dymuno cael profion dirybudd - waeth beth yw'r dystiolaeth a dderbynnir gan y CFfC yn ystod y cyfnod monitro – dylai ddiwygio'r amod drwy nodi sawl prawf sydd ei angen. Ni ddylai Pwyllgorau alw am brofion gwallt dirybudd. Gan eu bod yn berthnasol ar gyfer cyfnodau hir, ni fyddai'r elfen 'ddirybudd' yn debygol o fod o fudd.

14	I gyfyngu ar eich defnydd o alcohol yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir i chi gan eich goruchwyliwr meddygol/meddyg teulu, gan ymatal yn llwyr os mai dyna eu cyfarwyddyd.	
15	I ymatal yn llwyr rhag defnyddio [alcohol a/neu gyffuriau].	
16	I beidio â chymryd meddyginiaethau heb bresgripsiwn (ar wahân i gyffuriau y gallwch eu prynu wrth y cownter ac nad oes angen presgripsiwn ar eu cyfer), a dim ond meddyginiaethau y bydd eich meddyg teulu neu weithiwr iechyd arall yn darparu presgripsiwn ar eu cyfer y gallwch eu cymryd.	

C	Addewidion safonol ar gyfer pob achos perfformiad Dylid ystyried yr addewidion hyn os oes angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad, ac maent yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad personol	Nodiadau
17	I weithio gyda [person] i greu cynllun datblygu personol, wedi ei greu'n benodol i fynd i'r afael â'r gwendidau ym meysydd canlynol eich gwaith: • [maes lle mae pryder] Rhaid i chi anfon copi o'ch cynllun datblygu personol at y CFfC o fewn [nifer yr wythnosau] wythnos o'r dyddiad y daw'r addewidion i rym.	Dylai'r PY nodi'n glir y meysydd sy'n peri gofid. Dylai hefyd ddewis y person perthnasol. Gallai'r person fod yn oruchwyliwr neu'n fentor a dylai fod yn gofrestredig gyda'r CFfC. Nid oes rhaid i'r person a'r aelod cofrestredig weithio gyda'i gilydd wyneb yn wyneb.
18	I drefnu bod [y person a nodir yn 17] yn darparu adroddiad ar eich cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun datblygu personol bob [nifer y misoedd] mis.	Rhaid i'r PY nodi'r cyfnod amser priodol.

	Goruchwyliaeth yn y gweithle	
19	I: • enwi goruchwyliwr yn eich gweithle (y mae'n rhaid iddo fod yn fferyllydd neu dechnegydd fferyllol cofrestredig) i fod yn oruchwyliwr i chi yn y gweithle, a rhaid i chi eich rhoi eich hun, ac aros, dan ei oruchwyliaeth [uniongyrchol/agos/o bell] • ofyn i'r CFfC gymeradwyo'ch goruchwyliwr yn y gweithle o fewn [nifer yr wythnosau] wythnos o'r dyddiad y daw'r addewidion hyn i rym. Os nad ydych yn gyflogedig rhaid i chi ofyn i ni gymeradwyo'ch goruchwyliwr yn y gweithle cyn i chi ddechrau gweithio • rhoi eich caniatâd i'r CFfC gyfnewid gwybodaeth gyda'ch goruchwyliwr yn y gweithle ynghylch eich ymdrechion i wella'ch gwaith fferyllol	Dylai'r PY ystyried trefniadau gweithle'r aelod cofrestredig ac ystyried a fydd goruchwyliaeth gan aelod cofrestredig yn bosibl. Dylai hefyd ystyried a yw'r math o oruchwyliaeth ('agos', er enghraifft) yn bosibl yng ngweithle'r aelod.
20	I drefnu bod eich goruchwyliwr yn y gweithle yn anfon adroddiad ar eich cynnydd yn uniongyrchol i'r CFfC bob [nifer y misoedd] mis neu pan ofynnwn am un. Byddwn yn ymddwyn yn rhesymol o ran pa mor aml y byddwn yn gofyn am adroddiadau.	Rhaid i'r PY nodi'r cyfnod amser priodol.
21	I beidio â chyflawni [gwasanaeth/maes gwaith] oni bai eich bod yn cael eich goruchwylio'n uniongyrchol gan fferyllydd.	Mewn achosion camddefnyddio sylweddau, os oes gan yr aelod fynediad i gyffuriau a reolir, ystyriwch a oes angen ychwanegu amodau'n ymwneud â phrofi rheolaidd/adrodd meddygol. Rhaid i'r PY nodi'r meysydd gwaith penodol a/neu'r gwasanaethau. Er enghraifft: • gwasanaethau lleddfu caethiwed i sylweddau neu drafodion gwasanaethau o'r fath • gwasanaethau gofal lliniarol neu drafodion darpariaeth gwasanaethau o'r fath Dylid gosod yr amod hwn ynghyd ag amod 19.

22	I drefnu bod eich goruchwyliwr yn y gweithle yn adolygu'r gofrestr cyffuriau a reolir ar gyfer [enw'r fferyllfa] a darparu adroddiad i'r CFfC ar y canlynol: • [y mater]	Rhaid i'r PY nodi'r materion penodol.
23	I enwi fferyllydd neu dechnegydd addas i fod yn fentor i chi. Rhaid i chi ofyn i'r CFfC gymeradwyo'ch dewis o fentor o fewn [nifer yr wythnosau] wythnos o'r dyddiad y daw'r addewidion i rym. I ofyn am gyngor gan eich mentor, ac aros mewn cyswllt cyson ag ef neu hi, ynghylch y canlynol: • [maes/mater] Does dim rhaid i'r cyswllt hwn fod wyneb yn wyneb.	Rhaid i'r PY nodi'r meysydd/materion penodol. Rhaid i'r PY nodi'r cyfnod amser priodol. Gall mentora gynnwys: helpu'r aelod cofrestredig i nodi ffyrdd o wella perfformiad a datblygu sgiliau a gyrfa; rhannu arbenigedd, gwerthoedd, sgiliau a barn; sicrhau mewnwelediad i faterion dyrys; helpu'r aelod i ganfod datrysiadau i faterion anodd; a datblygu cynlluniau gweithredu ac asesu cynnydd.
24	I drefnu bod eich mentor yn ysgrifennu at y CFfC bob [nifer y misoedd] mis i gadarnhau bod y cyfarfodydd yn digwydd.	Rhaid i'r PY nodi'r cyfnod amser priodol.
	Hyfforddiant a Gwerthuso	
25	I gael eich hyfforddi'n bellach yn y meysydd canlynol: • [maes gwaith] Chi fydd yn talu am yr hyfforddiant. Rhaid i chi anfon eich tystysgrifau cwblhau i'r CFfC. Os nad oes tystysgrifau o'r fath ar gael, rhaid i chi drefnu bod arweinydd y cwrs yn ysgrifennu i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r cwrs, o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei gwblhau.	Dylai'r PY fod yn glir ynghylch y canlyniadau dysgu a ddisgwylir, er mwyn iddo allu penderfynu ai cwrs hyfforddi yw'r ffordd orau i'w sicrhau. Dylai'r PY ystyried: • a ganiateir i'r aelod cofrestredig weithio • a oes angen goruchwyliaeth agos tra'n hyfforddi, ac • a ddylai goruchwyliwr yn y gweithle ddarparu adroddiad ar ôl cyfnod penodol, yn disgrifio gallu'r aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant Os yw'r PY o'r farn ei fod yn angenrheidiol dylai osod amodau 19, 20 a 21.

26	I wneud trefniadau yn syth gyda'ch [rheolwr llinell/ goruchwyliwr fferyllol] i werthuso'ch gwaith fferyllol yn y meysydd canlynol: • [maes gwaith] I wneud yr hyn sydd ei angen i newid eich arferion gwaith o fewn yr amserlen a argymhellir. Rhaid i chi drefnu bod eich [rheolwr llinell/fferyllydd goruchwyliol] yn anfon adroddiad i'r CFfC ar ei werthusiad a'ch ymdrechion chi i weithredu'r hyn a argymhellwyd ganddo.	Dylai'r PY ystyried diogelwch cleifion ac a oes angen goruchwylio'r aelod cofrestredig tan iddo dderbyn cyngor a newid ei ymarfer. Rhaid i'r PY nodi'r meysydd/materion penodol
	Archwilio meysydd gwaith	
27	I gynnal archwiliad[au] ar y meysydd canlynol o'ch gwaith fferyllol bob [nifer y misoedd] mis: • [maes gwaith] I anfon copi o'ch archwiliad(au) i'r CFfC bob [nifer y misoedd] mis.	Rhaid i'r PY nodi'r meysydd/materion penodol a nodi pa mor aml y dylid cynnal yr archwiliadau.
28	I gadw cofnod yn rhestru pob [math o weithgaredd]. I anfon copi o'r cofnod hwn i'r CFfC cyn y cyfarfod adolygu nesaf. Neu, os na fu [math o weithgaredd], rhaid i chi gadarnhau hynny mewn ysgrifen i'r CFfC cyn y cyfarfod adolygu nesaf.	Rhaid i'r PY nodi'r meysydd penodol sy'n berthnasol i'r achos.
	Cyfyngiadau ar ymarfer - cyffredinol	
29	I beidio â gweithio fel [unig ymarferwr/ fferyllydd goruchwylio/fferyllydd â chyfrifoldeb].	
30	I: • gyflogi fferyllydd llawn amser i weithredu fel fferyllydd â chyfrifoldeb yn eich fferyllfa • gofyn i'r CFfC gymeradwyo'r person o fewn [nifer yr wythnosau] wythnos o'r dyddiad y daw'r addewidion hyn i rym	
31	I beidio â bod ynghlwm mewn unrhyw ffordd â pherchenogaeth neu reolaeth dros unrhyw fferyllfa.	
32	I gyfyngu eich gwaith fel aelod cofrestredig i [nifer] [diwrnod/ awr] yr wythnos.	

	Cyfyngiadau ar ymarfer - penodol	
33	I beidio â darparu [math o wasanaeth].	Rhaid i'r PY nodi'r mathau o wasanaeth sy'n benodol i'r achos, er enghraifft cyflenwi dulliau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng.
34	I beidio â bod ynghlwm mewn unrhyw ffordd â'r gwaith o archebu, storio, cyflenwi na darparu unrhyw gyffur yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4 Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001, heblaw am mewn argyfyngau sy'n peryglu bywyd.	
35	I beidio â bod ynghlwm mewn unrhyw ffordd â'r gwaith o archebu, storio, ysgrifennu presgripsiynau, cyflenwi, labelu na darparu unrhyw gyffur yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4 Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001.	
36	I beidio â bod ynghlwm mewn unrhyw ffordd â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol neu ofal iechyd o fewn y system garcharau neu gyfiawnder troseddol nac o fewn ysbytai [math] arbenigol a chartrefi gofal.	
37	I beidio â darparu cyngor clinigol ynghylch therapïau amgen neu gyflenwol na darparu unrhyw gynnyrch sy'n gysylltiedig â'r therapïau hyn.	
38	I beidio â darparu cyngor clinigol arbenigol i unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill.	
39	I beidio â gweithio fel person cymwys, a rhaid i chi anfon tystiolaeth i'r CFfC bod eich enw wedi ei ddileu o'r gofrestr personau cymwys erbyn [dyddiad].	Rhaid i'r PY nodi'r dyddiad priodol.
40	I beidio â darparu gwasanaeth fferyllol ar-lein neu wasanaeth fferyllol archebu drwy'r post.	
41	I beidio â bod ynghlwm mewn unrhyw ffordd â'r gwaith o archebu, storio, cyflenwi na darparu cyffuriau ffordd o fyw.	Mae hyn yn cynnwys cyffuriau i drin analluedd rhywiol, moelni mewn dynion, gordewdra ac ysmygu.
42	I beidio â gwneud gwaith fferyllol mewn unrhyw fferyllfa y mae [perthynas/aelod o'ch teulu] ynghlwm wrth ei rhedeg.	

	Cyfyngiadau ar ymarfer – gwaith locwm, dyletswyddau ar-alw, gwaith penwythnos, oriau estynedig	
43	I beidio â gweithio fel [fferyllydd/technegydd fferyllol] locwm neu gyflenwi.	
44	I gyfyngu eich gwaith fferyllol fel locwm i [ardal ddaearyddol] a/neu [fferyllfa/bwrdd iechyd lleol wedi ei enwi].	
45	I beidio â gweithio fel [fferyllydd/technegydd fferyllol] locwm neu gyflenwi na chyflawni dyletswyddau y tu allan i oriau arferol neu ar-alw, oni bai bod eich ymarferwr meddygol neu feddyg teulu wedi cymeradwyo hynny.	
	Gwelliannau ymarfer cyffredinol	
46	I gynyddu lefelau staff cymorth yn eich fferyllfa er mwyn sicrhau bod: • [y gwelliant sydd ei angen]	
47	I sicrhau bod [math o staff] yn cael hyfforddiant mewn [maes gwaith fferyllol], ac anfon tystiolaeth i'r CFfC eu bod yn gwneud yr hyfforddiant erbyn [dyddiad].	
	Gwarchodwyr	
48	I drefnu bod fferyllydd neu dechnegydd fferyllol arall sydd wedi cofrestru gyda'r CFfC, neu weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig arall, fod gyda chi pan fyddwch yn cynnal ymgynghoriadau gyda chleifion [gwrywaidd, benywaidd/agored i niwed]. Nid yw hyn yn anghenraid mewn argyfyngau sy'n peryglu bywyd. Os yw claf yn dymuno peidio â chael gwarchodwr o'r fath yn bresennol, rhaid i chi beidio â bwrw ymlaen gyda'r ymgynghoriad.	

49	I gadw cofnod ysgrifenedig, wedi ei ysgrifennu'n syth wedyn, o bob ymgynghoriad gyda chlaf [gwrywaidd/benywaidd/agored i niwed]. Rhaid nodi'n glir enw a chymwysterau'r gwarchodwr a rhaid i chi a'r gwarchodwr lofnodi a dyddio pob cofnod. Rhaid i chi anfon hwn i'r CFfC bob [nifer y misoedd] mis, neu pan ofynnwn amdano, ac ymhob adolygiad.	
50	I beidio â chynnal unrhyw brofion pwynt gofal.	Mae hyn yn cynnwys monitro a phrofi sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed, ceulo'r gwaed, colesterol, diabetes, gordewdra, ffibriliad atriaïdd, tyllu clustiau a rhoi'r gorau i ysmygu.
51	Rhaid i chi beidio â chynnal ymweliadau cartref.	
52	Rhaid i chi beidio â gweithio fel tiwtor cyn-gofrestru am [nifer y misoedd] mis /[yn ystod y cyfnod y bydd yr addewidion hyn mewn grym]. Rhaid i chi hysbysu adran gofrestru'r CFfC am amodau'r adewidion hyn o fewn pythefnos i'r dyddiad y daw'r addewidion i rym. Rhaid i chi hefyd ofyn i'r CFfC am ailgymeradwyaeth ar ôl i'r addewidion ddod i ben.	
53	Rhaid i chi beidio â bod ynghlwm wrth y gwaith o hyfforddi staff cynorthwyol/technegwyr.	
54	Rhaid i chi beidio â goruchwylio, cyflogi nac hyfforddi unrhyw israddedigion neu fyfyrwyr fferyllol cyn-gofrestrol.	

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformatau eraill, cysylltwch â'm tîm cyfathrebu yn **communications@pharmacyregulation.org**.

Os oes gennych gwestiynau am neu sylwadau ar gynnwys y ddogfen hon, cysylltwch â'n tîm monitro:

Tîm monitro
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: **0203 713 7988**
E-bost: **standards@pharmacyregulation.org**

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: 0203 713 8000

www.pharmacyregulation.org

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

©Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016